CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y Cyfarfod:	**15 Hydref 2024**
Teitl:	**Hunanasesiad Archwilio Mewnol 2023/24**
Pwrpas yr adroddiad:	**Cynnig sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus**

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn disodli Cod 2006 ar gyfer Archwilio Mewnol. Daeth hwn i rym ym mis Ebrill 2013. Rhaid cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cydymffurfio er mwyn sicrhau bod arferion archwilio mewnol cywir yn cael eu cymhwyso.

Mae'r Nodyn Cymhwyso yn cynnwys rhestr wirio a ddatblygwyd i ddiwallu'r gofynion fel y'u hamlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) 1311 a 1312 ar gyfer hunanasesiadau cyfnodol fel rhan o'r rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant. Mae'n ymgorffori gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ogystal â'r Nodyn Cymhwyso er mwyn cwmpasu'r ddwy ddogfen mewn ffordd gynhwysfawr.

Amgaeir yr hunanasesiad llawn yn ei grynswth, yn ogystal â'r cynllun gwella a ddaeth yn sgil yr hunanasesiad.

Mae dau faes i'w gwella wedi'u hadnabod. Mae un ohonynt wedi'u cynnwys ers y llynedd. Safon 1210: 5.3.1 Oes gan y CAE cymhwyster proffesiynol megis CMIIA/CCAB?

Mae'r CMIA wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gwblhau'r cymhwyster CIA ac yn ei drosglwyddo i'r CMIA ar ôl cwblhau ILM Lefel 4.

Mae'r ail gam gweithredu yn ymwneud â'r IIA Safonau Rhyngwladol a sicrhau ein bod yn barod i ddefnyddio datblygiad deunydd newydd i gan yr IASAB erbyn y 01/04/25.

Argymhelliad:	**Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi cynnwys yr hunanasesiad.**
Rheswm dros y penderfyniad:	**Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn fodlon bod yr Adran Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n ddigonol gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a'r Nodyn Cymhwyso wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau, er mwyn rhoi sicrwydd dibynadwy ar ddiwedd y flwyddyn.**
Atodiadau:	Atodiad 1 Hunanasesiad yr Archwilio Mewnol

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol
Dyddiad:	14 Awst 2024